Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Biliau Brys

Hysbysiad Hwylus

Mehefin 2013

## Beth yw Bil Brys?

Bil Brys yw Bil Llywodraeth y mae angen ei wneud yn Ddeddf yn gynt nag y mae proses ddeddfu pedwar cyfnod arferol y Cynulliad yn ei ganiatáu. Ni ddarperir diffiniad o Fil Brys yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*[1] ("Deddf 2006") nac yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad. Fodd bynnag, dywed Rheol Sefydlog 26.95:

> Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Cynulliad, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.[2]

Fel yn achos pob Bil Cynulliad, rhaid i Filiau Brys ymwneud ag un neu fwy o'r 20 Maes a gynhwysir yn Atodlen 7 i Ddeddf 2006 er mwyn iddynt fod o fewn cwmpas pwerau deddfwriaethol y Cynulliad.

## Craffu ar Fil Brys

Gan mai diben cyflwyno Bil Brys yw galluogi darpariaethau cyfreithiol brys i gael eu gweithredu'n gyflym, mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn nodi fersiwn wedi'i symleiddio o brosesau deddfwriaethol arferol y Cynulliad, er mwyn osgoi unrhyw oedi. Nodir y broses hon isod:

- Cyn cyflwyno Bil Brys yn y Cynulliad, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol (y mae'n ofynnol iddo, yn yr achos hwn, fod yn aelod o Lywodraeth Cymru ) wneud cynnig yn gyntaf, yn gofyn i'r Bil gael ei drin fel Bril Brys gan y Cynulliad. Caiff cynnig o'r fath gynnig hefyd bod y Bil Brys o dan sylw'n cael ei gyflwyno heb Femorandwm Esboniadol, sy'n ofynnol fel arfer gyda Biliau'r Cynulliad nad ydynt yn rhai brys. Rhaid i'r Cynulliad gytuno ar y cynnig cyn bod modd bwrw ymlaen â Bil Brys.
- Pan gyflwynir Bil Brys yn y Cynulliad, rhaid cael datganiad i gyd-fynd ag ef gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano, yn datgan bod darpariaethau'r Bil o fewn pwerau deddfwriaethol y Cynulliad ym marn yr Aelod. Ar yr un pryd, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol amdano gynnig yr amserlen ar gyfer ystyried Cyfnodau 1 i 4 ar gyfer y Bil Brys, y gellir ymdrin â hwy mewn un diwrnod mewn wythnos pan fydd y Cynulliad yn eistedd. Mae hon yn wahanol i'r broses arferol ar gyfer pennu amserlen ar gyfer ystyried Bil nad yw'n Fil Brys, lle bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu ar hynny. Caiff yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd wneud unrhyw newidiadau dilynol i'r amserlen, ond rhaid rhoi rhesymau dros y newidiadau hynny.

[1] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** (Pennod 32)
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Rheolau Sefydlog***, Rheol Sefydlog 26.95, Gorffennaf 2011

- Mae'r modd y mae'r Cynulliad yn ystyried Bil Brys yn dilyn y broses ddeddfwriaethol pedwar cyfnod arferol yn fras, ond gyda rhai addasiadau sylweddol er mwyn ei chyflymu. Nodir y cyfnodau hyn isod:
  - Yng **Nghyfnod 1**, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Brys. **Nid oes opsiwn yn bod i gyfeirio'r Bil i Bwyllgor y Cynulliad i gael ei ystyried yn fanwl.**
  - Rhaid i **Gyfnod 2** Bil Brys gael ei ystyried gan bwyllgor o'r Cynulliad cyfan (yn hytrach na Phwyllgor y Cynulliad) a gaiff ei gadeirio gan y Llywydd.
  - **Nid oes angen** bwlch o 15 diwrnod gwaith rhwng Cyfnod 2 a Chyfnod 3 wrth ystyried Bil Brys. **Felly gall trafodion Cyfnod 3** ddigwydd ar unwaith ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2
  - Nid oes **cyfnod adrodd** wrth ystyried Bil Brys.
  - Nid yw'r gofyniad arferol y dylai **gwelliannau** gael eu cyflwyno o leiaf bum niwrnod cyn y maent i gael eu hystyried yn berthnasol wrth ystyried Biliau Brys. Yn hytrach, caniateir i'r Llywydd benderfynu ar faint o rybudd y mae'n rhaid i Aelod Cynulliad ei roi os yw'n bwriadu cyflwyno gwelliant i Fil Brys.
  - **Nid** oes yn rhaid i destun Bil Brys fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg er mwyn iddo gael ei basio gan y Cynulliad yng **Nghyfnod 4**.

## Enghreifftiau o Filiau Brys mewn mannau eraill

Anaml y defnyddir Biliau Brys (a elwir hefyd yn ddeddfwriaeth wedi'i phrysuro neu ddeddfwriaeth dull carlam) yn San Steffan ac mewn deddfwrfeydd datganoledig eraill, a bydd yn digwydd fel arfer dim ond mewn ymateb i argyfyngau a/neu ddigwyddiadau penodol, dyfarniadau llys neu ddigwyddiadau brys. Mae adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar **ddeddfwriaeth dull carlam** ar 7 Gorffennaf 2009 yn nodi'r cyfiawnhad canlynol ar gyfer deddfwriaeth dull carlam:[3]

- Yn ymwneud â phroses heddwch a setliad datganoli Gogledd Iwerddon (y categori unigol mwyaf o ran nifer y Biliau a styriwyd)
- Unioni anghysondeb, amryfusedd, gwall neu ansicrwydd sydd wedi dod i'r golwg mewn deddfwriaeth;
- Ymateb i effeithiau dyfarniad llys
- Sicrhau bod deddfwriaeth mewn grym mewn pryd i ddigwyddiad sydd ar ddod;
- Delio ag argyfwng economaidd
- Newid terfyn benthyg neu fenthyca awdurdod lleol neu faterion ariannu eraill;
- Delio ag argyfwng mewn carchardai o ganlyniad i weithredu diwydiannol
- Ymateb i gytundebau rhyngwladol
- Gweithredu cyhoeddiad y Trysorlys yn y Gyllideb neu ddatganiad yr hydref;

[3] Mae rhestr lawn o ddeddfwriaeth a styriwyd a ystyriwyd gan Dŷ'r Cyffredin ers 1979 wedi'i nodi yn Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin ***Nodyn Safonol – Deddfwriaeth a styriwyd: Government Bills receiving their Second and Third Reading on the same day in the House of Commons***, March 2013

- Ymateb i bryderon gan y cyhoedd
- Yn ymwneud â gwrthderfysgaeth

Mae enghreifftiau o ddeddfwriaeth a styriwyd yn San Steffan yn cynnwys:

- **Deddf Ceiswyr Gwaith (Cynlluniau Dychwelyd i'r Gwaith) 2013:** Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 14 Mawrth 2013 a chynhaliwyd holl gyfnodau'r Tŷ Cyffredin ar 19 Mawrth 2013. Cafodd y Bil ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Mawrth a chynhaliwyd yr holl gyfnodau eraill yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 25 Mawrth. Diben y Ddeddf yw gwrthdroi dyfarniad y Llys Apêl a oedd yn dileu rhai rheoliadau 'Cynlluniau Dychwelyd i'r Gwaith' ar y sail eu bod *heb awdurdod* (h.y. y tu allan i gwmpas y pŵer gwneud rheoliadau statudol) gan eu bod yn methu â gwneud darpariaethau ar gyfer cynlluniau 'rhagnodedig', fel sy'n ofynnol gan y rhiant Ddeddf.
- **Deddf yr Heddlu (Cwynion ac Ymddygiad) 2012:** Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Tachwedd 2012 a chynhaliwyd holl gyfnodau'r Tŷ Cyffredin ar 5 Rhagfyr 2012. Cafodd y Bil ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 6 Rhagfyr 2012 a chynhaliwyd yr holl gyfnodau eraill ar 11 Rhagfyr 2012. Diben y Ddeddf yw rhoi pwerau newydd i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ('IPPC') i'w gwneud yn ofynnol i swyddog yr heddlu sy'n gwasanaethu fynd i gyfweliad fel tyst ac i alluogi'r IPPC i ymchwilio i hen achosion penodol yr oedd Awdurdod Cwynion yr Heddlu yn gysylltiedig â hwy. Cyflwynwyd y Bil yn sgîl adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012 gan Banel Annibynnol Hillsborough a ganfu tystiolaeth o newidiadau helaeth i gofnodion yr heddlu ac yn sgîl ymateb dilynol gan yr IPPC nad oedd yn gallu ymchwilio i bob agwedd ar ymddygiad yr heddlu o dan y fframwaith cyfreithiol presennol.
- **Deddf Gogledd Iwerddon (Cytundeb St Andrews) 2006:** Pasiwyd y Ddeddf hon gan Senedd y DU i alluogi darpariaethau yng Nghytundeb St Andrews i gael eu gweithredu ac i adfer datganoli yng Ngogledd Iwerddon. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Tachwedd 2006 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 22 Tachwedd 2006. Fe'i haddaswyd gan Ddeddf Frys arall, *Deddf Gogledd Iwerddon (Cytundeb St Andrews) (Rhif 2) 2007*, er mwyn estyn y dyddiad terfyn ar gyfer adfer datganoli, a bennwyd yn wreiddiol yn Neddf Cytundeb St Andrews 2006, i 8 Mai 2007.

Mae enghraifft o Fil Brys a ystyriwyd gan ddeddfwrfa ddatganoledig yn cynnwys y canlynol, a gafodd ei ystyried gan Senedd yr Alban yn 2010:

- **Deddf Gweithdrefn Droseddol (Carcharu, Cymorth Cyfreithiol ac Apeliadau) 2010:** Cyflwynwyd y Bil yn Senedd yr Alban ar 26 Hydref 2010 a gwnaed holl gyfnodau'r Bil ar 27 Hydref 2010. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod yr heddlu yn yr Alban yn caniatáu mynediad i gyfreithiwr, ac mae'n cynyddu'r cyfnod y gall rhywun gael ei gadw heb gael ei gyhuddo o chwech i 12 awr, gyda'r posibilrwydd o estyniad pellach i 24 awr. Fe'i pasiwyd gan Senedd yr Alban mewn ymateb brys i ddyfarniad y Goruchaf Lys a oedd yn cefnogi apêl gan ddyn ifanc yn ei arddegau, Peter Cadder, yr oedd ei gollfarn am ymosodiad yn seiliedig ar dystiolaeth a gafwyd cyn iddo siarad â'i gyfreithiwr. Felly, roedd y Bil Brys yn ofynnol mewn ymateb brys i bryderon y gallai bron i 3,500 o achosion yn yr Alban fod yn agored i apêl o dan "ddyfarniad Cadder".[4] Cyflwynwyd y Bil yn Senedd yr Alban ar 27 Hydref 2010 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Hydref 2010.

---

[4] I gael gwybodaeth gefndir gweler Newyddion y BBC, ***MSPs pass an emergency bill on Cadder ruling***, 27 Hydref 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **FILIAU BRYS**, cysylltwch ag **OWAIN ROBERTS** (owain.roberts@Cymru.gov.uk), y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

- Rhestr o **Hysbysiadau Hwylus, Papurau Ymchwil** neu **Nodiadau Ymchwil** eraill perthnasol
- Rhestr o ffynonellau neu wefannau eraill sy'n gysylltiedig â'r pwnc hwn

Gallwch weld **ein holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **www.cynulliadcymru.org/bus-home/research.htm**

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn e-bost at **Research.Service@cymru.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi cynhyrchu'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff, ond ni allant gynghori'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 12/2345**

**Enw'r awdur** Owain Roberts